Chwarae Cymru Play Wales

## GWYBOD RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWR

## Cylch gorchwyl bwrdd ymddiriedolwyr

---

### 1. Nodau

Bwrdd Ymddiriedolwyr CHWARAE CYMRU sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am lywodraethu'r sefydliad. Tra'n cadw cyfrifoldeb dros bob gweithred a wneir yn enw CHWARAE CYMRU, gall ddirprwyo cyfrifoldeb gweithredol i is-bwyllgorau a staff. Rôl y Bwrdd Ymddiriedolwyr yw pennu amcanion polisi cyffredinol CHWARAE CYMRU a sicrhau bod gweithgareddau'n adlewyrchu'r rhain, yn unol ag oblygiadau cyfreithiol, ariannol a moesol.

### 2. Cyfrifoldebau

Mae CHWARAE CYMRU wedi ei gofrestru fel sefydliad corfforedig elusennol (CIO). O'r herwydd, bydd pob Ymddiriedolwr yn Gyfarwyddwr Cwmni hefyd. Byddant, yn sylfaenol, yn gyfrifol dan ddeddfwriaeth y Comisiwn Elusennau am:

- Osod fframwaith polisi cyffredinol y sefydliad.
- Gosod ac adolygu amcanion polisi'r sefydliad.
- Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol.
- Derbyn aelodau newydd i CHWARAE CYMRU a derbyn aelodau newydd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Cymeradwyo defnyddio Sêl y Cwmni.
- Sefydlu ac adolygu'r strwythur staffio.
- Monitro perfformiad y sefydliad yn erbyn targedau a osodwyd.
- Mabwysiadu'r cyfrifon wedi eu harchwilio.
- Gosod lefel cyflogau.
- Cymeradwyo cynlluniau strategol a gweithrediadol.
- Penodi cynghorwyr cyfreithiol, cyfrifyddion a chynghorwyr proffesiynol eraill.
- Penodi neu ddiswyddo'r Cyfarwyddwr.
- Monitro gweithdrefnau disgyblu neu achwyn yn erbyn aelodau eraill o'r staff.
- Clywed apeliadau yn ymwneud â diswyddo staff.
- Derbyn ac ystyried adroddiadau am berfformiad CHWARAE CYMRU yn erbyn nodau allweddol ac adolygu unrhyw gamau cywiro a gymerwyd gan y Cyfarwyddwr.
- Ystyried adroddiadau drafft polisi a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyllid, adnoddau dynol a materion cyffredinol eraill.
- Sicrhau y caiff asedau CHWARAE CYMRU eu gwarchod trwy gynnal yswiriant digonol.
- Cymeradwyo gwaredu unrhyw asedau sydd â gwerth nodedig o fwy na £500.
- Cytuno ar unrhyw wariant cyfalaf sylweddol a wneir gan y sefydliad. Byddai hyn yn cynnwys gwariant ar unrhyw eitem unigol sydd dros £2,000, na glustnodwyd yn y gyllideb flynyddol.
- Cymeradwyo newidiadau i arwyddwyr awdurdodedig CHWARAE CYMRU.
- Dirprwyo awdurdod i is-bwyllgorau.
- Adolygu diwygiadau cyfansoddiadol fel bo angen.

**3. Cyfansoddiad / Aelodaeth**

3.1 Bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys yr aelodau canlynol:

3.1.1 Hyd at 9 Ymddiriedolwr penodedig.

Dim ond aelodau categori 3.1.1 sy'n gymwys i bleidleisio.

3.1.2 Hyd at 8 Sylwedydd wedi eu henwebu o:

- ClIL Cymru (*Cadeirydd neu aelod enwebedig a swyddog*)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (*Cadeirydd neu aelod enwebedig*)
- Chwaraeon Cymru (*Cyfarwyddwr neu swyddog enwebedig sydd â diddordeb ym maes chwarae plant*)
- Cyngor Celfyddydau Cymru (*Cyfarwyddwr neu swyddog enwebedig sydd â diddordeb ym maes chwarae plant*)
- Plant yng Nghymru (*Prif Weithredwr neu swyddog enwebedig sydd â diddordeb ym maes chwarae plant*)
- Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru (*Cadeirydd neu aelod enwebedig*)

3.2 Y cworwm yw 2 o ymddiriedolwyr yr elusen, neu'r rhif sydd agosaf at draean o gyfanswm yr ymddiriedolwyr, pa un bynnag sydd fwyaf, neu pa bynnag rif mwy y bydd yr elusen yn ei ddewis o dro i dro.

3.3 Penodir y Cadeirydd yn y CCB.

**4. Is-bwyllgorau**

4.1 Dylai'r Bwrdd gytuno ar gyfrifoldebau a phwerau penderfynu pob is-bwyllgor.
4.2 Dylai Cadeirydd pob is-bwyllgor fod yn Ymddiriedolwr a benodwyd gan y Bwrdd.
4.3 Caiff pob is-bwyllgor wahodd pobl eraill i gyfrannu eu harbenigedd am gyfnod cyfyngedig. Gallant fod yn swyddogion gyda'r sefydliad neu'n bobl allanol sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol.
4.4 Bydd pob is-bwyllgor yn cwrdd yn unol ag amserlen a luniwyd ymlaen llaw, sy'n gymesur â'u gwaith.

**5. Ymrwymiad**

5.1 Bydd y bwrdd ymddiriedolwyr yn cwrdd tua pedair/pum gwaith y flwyddyn.
5.2 Caiff is-bwyllgorau o'r Bwrdd gwrdd fel y bydd angen, a chaiff ymddiriedolwyr ymrwymo hynny o amser y dymunant i ddatblygiadau o'r fath.
5.3 Efallai y bydd angen cwrdd ag Aelodau o'r Sennedd neu swyddogion Llywodraeth Cymru i'w cynghori ynghylch materion strategol. Mae'n bosibl y bydd cyfarfodydd o'r fath yn achosi galwadau ychwanegol ar amser aelodau.
5.4 Bydd penodiad Ymddiriedolwyr CHWARAE CYMRU'n ddibynnol ar Wiriad y Biwro Cofnodion Troseddol (DBS)
5.5 Cyfnod tymor: 3 blynedd

**6. Taliadau**

6.1 Mae penodiadau i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac i is-bwyllgorau'n rhai di-dâl, ond gall aelodau hawlio ad-daliad am gostau teithio neu mân dreuliau a gyfyd tra'n cyflawni dyletswyddau ar ran y Bwrdd.

**7. Adolygiadau**

7.1 Caiff rolau a phwrpas y Bwrdd a'r is-bwyllgorau eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

7.2 Cynhelir adolygiad blynyddol o'r ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd er mwyn darparu cyfle strwythuredig i ymddiriedolwyr drafod unrhyw faterion sy'n achos pryder iddynt, yn gyfrinachol, gyda'r Cadeirydd.